



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

ADRODDIAD SAFONAU'R IAITH GYMRAEG 2020/ 2021

This report is also available in English

Cyd-destun

Roedd y flwyddyn ariannol 2020-21 yn flwyddyn heriol ac ansicr i bawb – ni waeth beth fo'r sector. Ym mis Mawrth 2020, fe gyhoeddwyd bod pandemig y Coronafeirws ar led yn y DU. Yn sgil y pandemig, fe gymerodd Ganolfan Mileniwm Cymru y penderfyniad anodd i [gau ein drysau 17 Mawrth 2020](#). Yn fuan wedyn, fe gyhoeddodd Prif Weinidog y DU gyfnod clo estynedig ledled y DU. Wrth i ni greu'r adroddiad hwn (ym mis Mai 2021), mae ein hadeilad yn parhau i fod ar gau, ac rydym ni'n cynllunio ailagor yn raddol dros yr haf/yr hydref.

Yn sgil cau'r adeilad, fe gollwyd £20miliwn o'n hincwm dros nos, a bu raid cymryd y penderfyniad anodd iawn yn ystod haf 2020 i fynd drwy broses o ail-strwythuro'r sefydliad. Drwy'r holl heriau a'r anawsterau a wynebwyd yn ystod 2020-21, roedd y Gymraeg a'n hymrwymiad i'r safonau o'r pwys mwyaf.

Y Safonau a Chanolfan Mileniwm Cymru: Gosod yr olygfa

Cyflwynwyd [Safonau'r Gymraeg](#) er mwyn darparu fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi hawl i unigolion yng Nghymru dderbyn gwasanaethau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ers mis Ionawr 2017, mae Safonau'r Gymraeg wedi bod yn berthnasol i ni.

Rydym bob amser wedi cymryd ein cyfrifoldeb tuag at gyflawni gwasanaethau dwyieithog o ddifri; mae'n dod yn naturiol i ni. Mae darparu gwasanaethau yn Gymraeg i'n cwsmeriaid wedi bod yn hollbwysig i'r ffordd rydym yn gweithio ers y dechrau'n deg, ac rydym yn ymrwymedig i gyflawni'r safonau.

Mae ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn glir; byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd i bobl ddefnyddio eu Cymraeg gyda ni ac yn gwneud yn siŵr nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol. Rydym yn falch o ddefnyddio'r Gymraeg.



CANOLFAN MILENIWM CYMRU WALES MILLENNIUM CENTRE

Wrth ymweld â ni, gall ein cwsmeriaid ddisgwyl cael eu croesawu yn Gymraeg, a phan fyddwn yn ymgysylltu gyda'n cwsmeriaid, byddwn:

- yn cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- yn parchu ac yn cofio eu dewisiadau iaith
- yn hyrwyddo ein sioeau a'n digwyddiadau yn ddwyieithog ar ddeunyddiau sydd wedi'u hargraffu ac ar-lein

Y Safonau

Mae ein Rhybudd Cydymffurfio yn mynnu ein bod yn cydymffurfio gyda chyfanswm o 146 o safonau, sy'n ymdrin â'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ein perthynas gyda'n staff, ynghyd â sut rydym yn ystyried yr iaith yn ein penderfyniadau polisi. Cewch weld rhagor o wybodaeth am y safonau hyn [yma](#).

Dan y chwyddwydr: Ein perthynas gyda chi

Mae'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn egluro pa wasanaethau y mae angen i ni eu darparu'n ddwyieithog i chi – ein cynulleidfaoedd a'n hymwelwyr. Credwn ein bod yn cydymffurfio'n llwyddiannus â'r holl safonau yn y maes hwn ac, wrth wneud hynny, rydym yn darparu croeso Cymreig sy'n naturiol gynnes a phrofiad o'r radd flaenaf i'r rheiny sy'n dewis cysylltu â ni neu ymweld â ni.

Mewn niferoedd:

Erbyn mis Mawrth 2021, roedd cyfanswm o **3,999** o gwsmeriaid wedi cofrestru Cymraeg fel eu dewis iaith, tra bod **1,951** o'n cwsmeriaid wedi cofrestru mai eu dewis nhw yw derbyn gohebiaeth yn ddwyieithog.

Gan fod ein llinellau ffôn wedi cau ers 20 Mawrth 2020 ac yn parhau i fod ar gau wrth i ni ysgrifennu'r adroddiad hwn, ni dderbyniwyd unrhyw alwadau yn Gymraeg nac yn Saesneg gan y cyhoedd yn ystod 2020-21.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom:

- Gefnogi staff drwy ddarparu sesiynau briffio ac atgoffa yn canolbwyntio ar y safonau a gwasanaethau cwsmeriaid drwy gyfrwng y Gymraeg, ar Teams.



CANOLFAN MILENIWM CYMRU WALES MILLENNIUM CENTRE

- Ystyried y Gymraeg a'n hymrwymiad i gwsmeriaid, staff ac ymwelwyr ym mhob penderfyniad a wnaed yn sgil cau'r adeilad.
- Ymateb i holiadur Comisiynydd y Gymraeg ynghylch effaith argyfwng pandemig y Coronafeirws ar ddarpariaeth Gymraeg ein sefydliad.

Meysydd i'w gwella:

Ein nod yw darparu gwasanaeth ardderchog yn barhaus; fodd bynnag, rydym yn deall bod pethau'n medru mynd o'i le weithiau. Rydyn ni'n edrych yn gyson am ffyrdd o wella ar ein gwasanaethau. Yn ystod y flwyddyn 2020-21 ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch ein gwasanaeth Gymraeg.

Dan y chwyddwydr: Ein perthynas gyda'n tîm

Mae'r Safonau Gweithredu yn amlinellu pa wasanaethau y dylem fod yn eu darparu'n ddwyieithog i'n staff. Credwn ein bod yn cydymffurfio'n llwyddiannus â'r holl safonau yn y maes hwn, ac wrth wneud hynny rydym yn medru ymateb i anghenion iaith ein staff gan eu cefnogi i barhau i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog i'n cynulleidfaoedd yr un pryd.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom:

- Gynnig cyrsiau Cymraeg am ddim i bob aelod o staff yn ystod oriau gwaith. Fe wnaeth cyfanswm o **10** o gydweithwyr fynychu'r cwrs Cymraeg dwys eleni. Darparwyd y cwrs gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- Trefnu sesiynau 'Clonc' anffurfiol – clwb sgwrsio i ddysgwyr Cymraeg gael ymarfer gyda dysgwyr eraill a siaradwyr Cymraeg rhugl ymhlith ein staff. Bu seibiant i'r sesiynau pan oedd y rhan fwyaf o'r gweithlu ar gyfnod ffyrlo, ond ail-gydiodd y grŵp yn y sesiynau Clonc cyn gynted â bo staff yn ôl yn eu gwaith.

Safonau llunio polisi

Mae gennym gyfanswm o saith o safonau o fewn y dosbarth hwn a chredwn ein bod yn cydymffurfio'n llwyddiannus â'u holl ofynion. Yn ystod y cyfnod adrodd fe luniwyd sawl polisi newydd a gyda phob polisi aseswyd yr effaith gallai'r polisi ei



CANOLFAN MILENIWM CYMRU WALES MILLENNIUM CENTRE

chael ar y Gymraeg. Yn sgil pandemig y Coronafeirws, penderfynom oedi ar lansio'r polisïau newydd yma.

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni wnaethom dderbyn unrhyw gwynion a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'n cydymffurfiaeth â'r maes hwn.

Sgiliau Cymraeg

Rydym yn cofnodi'r nifer o weithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol ac, ar ddiwedd Mawrth 2021, roedd y sefyllfa fel a ganlyn:

Cyfanswm nifer y staff = **85**

Cyfanswm nifer y staff â sgiliau Cymraeg = **37 (44% o staff)**

Hyfforddiant

Rydym yn cynnig hyfforddiant i'n staff ar draws ystod o feysydd mewn perthynas â'r cyrsiau penodol sydd wedi'u rhestru o fewn ein safonau. Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom ddarparu hyfforddiant ymsefydlu i **ddau** aelod newydd o staff. Cynigiwyd opsiwn Cymraeg i'r ddau; fodd bynnag, ni ddewisodd yr un aelod o staff yr opsiwn hwn gyda'r ddau'n dewis mynychu'r sesiynau Saesneg. Ni chynigiwyd unrhyw gyrsiau eraill a oedd yn berthnasol i'r safonau.

Recriwtio

Mae pob un swydd rydyn ni'n ei hysbysebu yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol. Yn y swyddi hynny lle mae gwaith yn cael ei gynhyrchu yn y Gymraeg, mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Ar gyfer 2020/21 rydym yn cofnodi'r wybodaeth fel a ganlyn:

Maes adrodd	Nifer
Swyddi newydd / swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y cyfnod adrodd	8
Swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol	0
Swyddi lle'r oedd angen dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl cael eu penodi i'r swydd	0



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol	8
Swyddi lle nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol	0

Am ragor o wybodaeth

Mae rhestr lawn o'r holl safonau sy'n berthnasol i ni ar gael ar ein [gwefan](#).

Cysylltwch â ni os hoffech ragor o wybodaeth.

wmc.org.uk | adborth@wmc.org.uk

Ymunwch â'r sgwrs. Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg.